

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a  
Deddfwriaethol

**Adroddiad ar y Bil Lefelau Diogel  
Staff Nyrsio (Cymru)**

Mai 2015

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565  
E-bost: [SeneddMCD@cynulliad.cymru](mailto:SeneddMCD@cynulliad.cymru)  
Twitter: [@SeneddMCD](https://twitter.com/SeneddMCD)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a  
Deddfwriaethol

**Adroddiad ar y Bil Lefelau Diogel  
Staff Nyrsio (Cymru)**

Mai 2015

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 15 Mehefin 2011, a'i gylch gwaith yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3, ac i ystyried unrhyw faterion eraill yn ymwneud â deddfwriaeth a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**David Melding (Cadeirydd)**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Canol De Cymru



**Alun Davies**  
Llafur Cymru  
Blaenau Gwent



**Suzy Davies**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Gorllewin De Cymru



**William Powell**  
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Simon Thomas**  
Plaid Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

---

# Cynnwys

---

<b>Argymhellion y Pwyllgor .....</b>	<b>5</b>
<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>6</b>
Cylch gwaith y Pwyllgor .....	6
Cyflwyno'r Bil a'i drafod .....	6
<b>2. Cefndir.....</b>	<b>7</b>
Diben y Bil.....	7
<b>3. Cymhwysedd Deddfwriaethol .....</b>	<b>8</b>
Memorandwm Esboniadol.....	8
Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol .....	8
Ein barn ni.....	8
<b>4. Sylwadau cyffredinol .....</b>	<b>9</b>
Tystiolaeth gan y Gweinidog.....	9
Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol .....	9
Ein barn ni.....	10
<b>5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ac i gyhoeddi canllawiau – sylwadau ar bwerau penodol .....</b>	<b>11</b>
Cefndir.....	11
Adran 2 – Lefelau diogel staff nyrsio .....	11
Adran 10(A)(3) o Ddeddf 2006.....	11
Tystiolaeth gan y Gweinidog.....	11
Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol .....	11
Ein barn ni.....	12
Adrannau 10A(4)-(6) o Ddeddf 2006 .....	12
Tystiolaeth gan y Gweinidog.....	12
Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol .....	13
Ein barn ni.....	13
Defnyddio diffiniadau yn y Bil .....	14
Tystiolaeth gan y Gweinidog.....	14

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol .....	15
Ein barn ni.....	16
Adran 4 - Cychwyn .....	16
Ein barn ni.....	17

## **Argymhellion y Pwyllgor**

---

**Argymhelliad 1.** Argymhellwn fod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn cyflawni amcanion adran 10A(4)-(6) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 drwy reoliadau, yn amodol ar y weithdrefn negyddol. (Tudalen 13)

**Argymhelliad 2.** Argymhellwn fod y Bil yn cael ei gryfhau gan yr Aelod sy'n gyfrifol drwy roi rhagor o ddiffiniadau ar wyneb y Bil. (Tudalen 16)

**Argymhelliad 3.** Argymhellwn fod yr Aelod sy'n gyfrifol yn ystyried eglurder y ddarpariaeth hon ac yn cyflwyno gwelliannau os bydd angen. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 4.** Argymhellwn fod pŵer cychwyn yn cael ei gynnwys yn y Bil. (Tudalen 17)

# 1. Cyflwyniad

---

## *Cylch gwaith y Pwyllgor*

1. Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ("y Pwyllgor") yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y nodir yn Rheol Sefydlog 21, ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â hwy.
2. O fewn y cylch gwaith hwn, bydd y Pwyllgor yn ystyried pwysigrwydd gwleidyddol a chyfreithiol yr holl offerynnau statudol neu offerynnau statudol drafft a wneir gan Weinidogion Cymru, yn ogystal ag agweddau technegol ar yr offerynnau hynny. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ynghylch a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offerynnau yn unol ag ystod o seiliau a restrir yn Rheol Sefydlog 21.
3. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried pa mor briodol yw darpariaethau ym Miliau'r Cynulliad ac ym Miliau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol, ac yn cyflwyno adroddiadau ar hynny.

## *Cyflwyno'r Bil a'i drafod*

4. Ar 1 Rhagfyr 2014, cyflwynodd Kirsty Williams AC y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) ('y Bil') a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig.<sup>1</sup>
5. Cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad y Bil at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'w ystyried, gan nodi y dylid cyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil erbyn 10 Ebrill 2015. Ar gais y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn y dyddiad ar gyfer cyflwyno'r adroddiad i 8 Mai 2015.
6. Trafodwyd y Bil yn ein cyfarfod ar 2 Chwefror 2015, a chafwyd tystiolaeth gan Kirsty Williams AC, yr Aelod sy'n gyfrifol, a Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ('y Gweinidog').

---

<sup>1</sup> Kirsty Williams AC, y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Rhagfyr 2014.



## 2. Cefndir

---

### *Diben y Bil*

7. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan fel a ganlyn:

“Nod y Bil yw sicrhau bod lefelau digonol o staff nyrsio yn y GIG yng Nghymru er mwyn darparu gofal nyrsio diogel ac effeithiol o safon i gleifion ar bob adeg.”<sup>2</sup>

8. Mae'n dweud y bydd y Bil yn cryfhau'r trefniadau presennol drwy:

- roi dyletswydd ar gyrff y gwasanaeth iechyd yng Nghymru i roi sylw i'r pwysigrwydd o sicrhau lefel briodol o staff nyrsio lle bynnag y darperir gofal nyrsio gan y GIG;
- ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer wardiau ysbytai aciwt i oedolion sy'n nodi'r dulliau/prosesau y bydd disgwyl i sefydliadau'r GIG eu defnyddio i bennu lefelau staff nyrsio sy'n briodol yn lleol ac yn ddiogel ar bob adeg;
- rhoi dyletswydd ar gyrff y gwasanaeth iechyd i gymryd camau i sicrhau nad yw lefelau staff nyrsio ar wardiau aciwt i oedolion yn disgyn yn is na lefelau penodol. Mae'r 'isafsymiau' hynny i'w cynnwys yn y canllawiau statudol fel cymarebau gofynnol 'nifer y nyrsys i bob claf' a 'nifer y nyrsys i bob gweithiwr cymorth gofal iechyd'. Mae darpariaeth i'r ddyletswydd hon gael ei hymestyn i leoliadau gofal iechyd eraill yn y dyfodol;
- sicrhau, wrth benderfynu ar lefelau staff nyrsio, bod rolau penodol (prif nyrsys ward, er enghraifft) yn cael eu hystyried yn rolau ychwanegol, neu uwchrifol, a bod ffactorau fel hyfforddi a datblygu staff ac absenoldeb wedi'i gynllunio/heb ei gynllunio yn cael eu cymryd i ystyriaeth mewn modd priodol;
- rhoi dyletswydd ar gyrff y gwasanaeth iechyd yng Nghymru i fonitro i ba raddau y maent yn cydymffurfio â'r gofynion i sicrhau lefel briodol o staff nyrsio, ac i weithredu lle na lwyddir i wneud hyn;
- darparu sail statudol i gleifion a staff allu herio lefelau isel o staff nyrsio.<sup>3</sup>

---

<sup>2</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 3

### 3. Cymhwysedd Deddfwriaethol

---

#### *Memorandwm Esboniadol*

9. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod gan y Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y ddeddfwriaeth hon yn rhinwedd paragraff 9 (iechyd a gwasanaethau ieched) o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

10. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn datgan bod rheoleiddio gweithwyr ieched proffesiynol yn cael ei restru fel eithriad o dan baragraff 9, ond nad oes unrhyw un o'r darpariaethau yn y Bil yn dod o fewn yr eithriad hwnnw, nac unrhyw eithriad arall.<sup>4</sup>

#### *Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol*

11. Dywedodd Kirsty Williams AC wrthym ei bod yn credu bod y Bil o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Dywedodd nad oedd unrhyw system sy'n caniatáu i Aelodau o'r meinciau cefn gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar faterion o gymhwysedd deddfwriaethol.<sup>5</sup>

#### *Ein barn ni*

12. Nodwn farn yr Aelod ynghylch gallu'r Cynulliad i wneud y ddeddfwriaeth hon.

13. Fel yr ydym wedi sôn eisoes yn achos Biliau eraill, mae'n edrych yn debyg nad yw'n ddigon clir sut y dylai Aelod o'r meinciau cefn sy'n gyfrifol am Fil fynd ati i ofyn barn Llywodraeth y DU ar faterion o gymhwysedd deddfwriaethol, pe byddai hynny'n angenrheidiol. Tynnwyd ein sylw at hyn yn ystod ein hymchwiliad i ddeddfu yn y Pedwerydd Cynulliad hefyd.

---

<sup>3</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3

<sup>4</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraffau 7-8

<sup>5</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 2 Chwefror 2015 [76] 2 Chwefror 2015

## 4. Sylwadau cyffredinol

---

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

14. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi nod y Bil, sef sicrhau bod y nifer briodol o nyrsys ar wardiau ysbytai. Fodd bynnag, dywedodd y gallai fod ffyrdd heblaw deddfwriaeth o gyflawni'r nod hwn:

“I think it is arguable that a great deal of what the Bill seeks to achieve could be achieved through other tools and levers that the Government could deploy for this purpose. But I’m open minded about the possibility that the Bill could add to that repertoire and strengthen it, and will be hoping to engage constructively with the process as it develops to take a view on that.”<sup>6</sup>

15. Dywedodd na fyddai'r Llywodraeth yn cefnogi'r Bil fel y'i drafftwyd, ond bod trafod y Bil wedi helpu'r Llywodraeth i feddwl am ddefnyddio'r pwerau sydd ganddi ar hyn o bryd, a allai gynnwys gwneud y canllawiau presennol yn orfodol.<sup>7</sup>

### *Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol*

16. Yn ei thystiolaeth, fe ddywedodd Kirsty Williams AC ei bod o'r farn bod angen deddfwriaeth i gwrdd ag amcanion y Bil. Dywedodd nad oedd y Byrddau Iechyd Lleol ar hyn o bryd yn cydymffurfio â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Prif Swyddog Nyrsio ynghylch lefelau staffio. Dywedodd mai'r unig ffordd o sicrhau eu bod yn cydymffurfio oedd creu sail statudol fel ei bod yn rhaid i fyrddau iechyd weithredu'r canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.<sup>8</sup>

17. Dywedodd wrthym:

“It seems to me that only by making it statutory and having this legal underpinning will LHBs prioritise this piece of work....we

---

<sup>6</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [5] 2 Chwefror 2015

<sup>7</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [8 ac 14], 2 Chwefror 2015

<sup>8</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [74], 2 Chwefror 2015

know that what health managers prioritise are the statutory requirements.”<sup>9</sup>

18. Ychwanegodd y byddai'r Bil hefyd yn sail gyfreithiol i staff a chleifion allu herio cyrff gofal iechyd os credant bod y lefelau staffio yn anniogel.<sup>10</sup>

### ***Ein barn ni***

19. Rydym yn cydnabod bod y Bil wedi'i gyflwyno gan yr Aelod sy'n gyfrifol am nad yw'r polisiau presennol, yn ei barn hi, yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir, ac y byddai dull deddfwriaethol o bosibl yn rhoi blaenoriaeth uwch i'r mater. Fel y dywedwyd gennym mewn adroddiadau ar Filiau Aelodau eraill, mae hwn yn ddull dilys o weithredu.

20. Ni chredwn fod y Bil, fel y'i drafftwyd, yn mynd i'r afael yn y ffordd orau bosibl â'r materion y mae'n ceisio'u datrys. Y rheswm am hyn yw bod nifer o dermau allweddol heb eu diffinio yn y Bil (neu mewn rheoliadau) ac am mai canllawiau statudol, sef ffocws y Bil, yw'r dull deddfwriaethol gwannaf sydd gan y Cynulliad. Hoffem dynnu ein sylwadau at sylw'r Cynulliad, a chredwn y dylent gael eu hystyried yn fanylach gan yr Aelod sy'n gyfrifol a chan Weinidogion Cymru yn ystod trafodion Cyfnod 2. Byddai mynd i'r afael â'r materion hyn yn helpu i gryfhau'r Bil.

---

<sup>9</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [86], 2 Chwefror 2015

<sup>10</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [86] 2 Chwefror 2015

## **5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ac i gyhoeddi canllawiau – sylwadau ar bwerau penodol**

---

### **Cefndir**

21. Dim ond pum adran sydd i'r Bil ac nid oes unrhyw atodlenni.

22. Mae'r Bil yn cynnwys un pŵer i wneud rheoliadau, a phwerau helaeth i gyhoeddi canllawiau.

### **Adran 2 – Lefelau diogel staff nyrsio**

23. Yn adran 2 y mae darpariaethau mwyaf sylweddol y Bil Byddai'r adran hon yn mewnosod adran newydd 10A (Dyletswydd i gynnal lefelau diogel staff nyrsio) yn *Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006* ("Deddf 2006")

### **Adran 10(A)(3) o Ddeddf 2006**

24. Byddai Adran 10(A)(3) o Ddeddf 2006 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ymestyn y ddyletswydd yn adran 10(1)(b) - sef cymryd pob cam rhesymol i fodloni'r cymarebau staffio gofynnol - i leoliadau ychwanegol, hynny yw lleoliadau ar wahân i wardiau cleifion mewnol i oedolion mewn ysbytai aciwt. Byddai'r rheoliadau hyn yn cael eu gwneud drwy'r weithdrefn gadarnhaol.

### ***Tystiolaeth gan y Gweinidog***

25. Dywedodd y Gweinidog fod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol ar gyfer y rheoliadau, ac y byddai'r pŵer hwn yn rhoi'r hyblygrwydd i'r Llywodraeth i gyflwyno lleoliadau eraill yn y dyfodol, os byddai tystiolaeth o blaid hynny.<sup>11</sup>

### ***Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol***

26. Esboniodd Kirsty Williams AC ei bod yn gobeithio ei bod wedi diogelu'r ddeddfwriaeth at y dyfodol drwy alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno canllawiau ar gyfer lleoliadau eraill os, a phan, fyddai tystiolaeth ar gael.<sup>12</sup>

---

<sup>11</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [57] 2 Chwefror 2015

<sup>12</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [100] 2 Chwefror 2015

27. Dywedodd wrthym, pe byddai sefydliadau fel NICE yn cyflwyno canllawiau ar lefelau staffio mewn lleoliadau gofal iechyd eraill, a phe na byddai Gweinidogion Cymru wedyn yn defnyddio'r pŵer hwnnw, byddai hynny:

“would be a matter for Ministers to explain to the Chamber and the people of Wales, as to why, or why not, they didn’t feel it appropriate to bring forward guidance at that time.”<sup>13</sup>

### ***Ein barn ni***

28. Croesawn y ffaith bod yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Gweinidog, ill dau, yn cytuno y dylai'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud drwy'r weithdrefn gadarnhaol.

### **Adrannau 10A(4)-(6) o Ddeddf 2006**

29. Mae adran arfaethedig 10A(4) yn cynnwys dyletswyddau helaeth i Weinidogion Cymru roi canllawiau i gyrff yn y gwasanaeth iechyd ynghylch cydymffurfio â'r ddyletswydd o dan is-adran (1)(b). Mae'r materion i ymdrin â hwy wedi'u nodi yn fanwl yn is-adrannau (5) a (6).

### ***Tystiolaeth gan y Gweinidog***

30. Roedd y Gweinidog o'r farn bod agwedd y Bil at ganllawiau yn briodol, ond bod y manylion yn rhy benodol.<sup>14</sup> Teimlai fod is-adran (5) yn dangos y mathau o faterion y caiff canllawiau eu cwmpasu, ond na ddylai fynnu hynny.<sup>15</sup>

31. Yn hytrach, credai'r Gweinidog y dylai'r Bil roi amlinelliad o'r gofynion ar gyfer canllawiau, ac y dylai manylion y canllawiau gael eu llunio ar ôl ymgynghori, ac ar ôl y camau a fyddai'n dilyn o hynny.<sup>16</sup>

32. Dywedodd wrthym:

“I understand the spirit behind that clause, but, as currently framed, as an absolute must, I think it would end up making

---

<sup>13</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [121] 2 Chwefror 2015

<sup>14</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [21] 2 Chwefror 2015

<sup>15</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [23] 2 Chwefror 2015

<sup>16</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [23] 2 Chwefror 2015

difficulties rather than solving them in the way that I'm sure the guidance was designed to do."<sup>17</sup>

### ***Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol***

33. Esboniodd Kirsty Williams AC, ei bod, wrth ddrafftio'r Bil, wedi ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng hyblygrwydd a bod yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan y Gweinidog. Eglurodd mai dyna pam nad oedd y cymarebau o ran nifer y nyrsys i bob claf ar wyneb y Bil, a bod is-adran (5) yn benodol am y meysydd y dylai'r canllawiau eu cwmpasu. Dywedodd nad oedd y rhestr yn gynhwysfawr, ac y gallai Gweinidogion gynnwys meysydd eraill o fewn y canllawiau.<sup>18</sup>

34. Pan ofynnwyd i'r Aelod pam na allai'r canllawiau gael eu nodi yn y rheoliadau, dywedodd wrthym fod hyn wedi'i ystyried, ond roedd yn teimlo bod yr angen am hyblygrwydd yn hanfodol:

“...it's this constant battle to achieve flexibility, which allows the law to respond to situations in hospitals, in the profession, versus a statutory procedure that would be required to come back and back and back, which potentially could leave us in a situation where you had unsafe practices potentially going on in hospitals by virtue of needing a legislative process to come back....on balance, I think safety is best delivered by the flexibility of the guidance, rather than regulation.”<sup>19</sup>

### ***Ein barn ni***

35. Fel yr amlygwyd ym mharagraff 20, y canllawiau statudol yw'r dull deddfwriaethol gwannaf sydd gan y Cynulliad. Credwn y byddai'r Bil yn gryfach pe byddai'r gofynion yn cael eu nodi mewn rheoliadau.

**Argymhelliad 1: Argymhellwn fod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn cyflawni amcanion adran 10A(4)-(6) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 drwy reoliadau, yn amodol ar y weithdrefn negyddol.**

---

<sup>17</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [23] 2 Chwefror 2015

<sup>18</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [131] 2 Chwefror 2015

<sup>19</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [135] 2 Chwefror 2015

### ***Defnyddio diffiniadau yn y Bil***

36. Mae adran newydd 10A(5)(d) o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddiffinio yn y canllawiau y termau a ddefnyddir yn adran 10(1)(b) ar y ddyletswydd sy'n ymwneud â chymarebau staff nyrsio.

### ***Tystiolaeth gan y Gweinidog***

37. Dywedodd y Gweinidog fod rhai materion diffiniadol yma y byddai angen eu harchwilio a'u cryfhau<sup>20</sup>, a dywedodd hefyd bod rhai pethau y byddai'n well eu cynnwys ar wyneb y Bil gan gynnwys termau sylfaenol<sup>21</sup>. Dywedodd ei bod yn anodd iawn llunio canllawiau heb wybod beth y ceisir ei gyflawni.<sup>22</sup>

38. Soniodd y swyddogion a ddaeth gyda'r Gweinidog am y termau y byddent yn hoffi eu gweld yn cael eu diffinio ar wyneb y Bil, gan gynnwys 'wardiau cleifion mewnol i oedolion' ac 'ysbytai aciwt'.<sup>23</sup> Dywedodd y Gweinidog, nad oeddynt, ar wahân i 'nyrs gofrestredig', wedi canfod diffiniadau yn rhannau eraill y llyfr statud y gellid eu defnyddio.<sup>24</sup>

39. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod y diffiniad presennol o 'corff yn y gwasanaeth iechyd' yn cynnwys Gweinidogion Cymru, sy'n golygu y gallai Gweinidogion Cymru fod mewn sefyllfa lle byddent yn cyhoeddi canllawiau iddynt eu hunain.<sup>25</sup>

---

<sup>20</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [10] 2 Chwefror 2015

<sup>21</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [27] 2 Chwefror 2015

<sup>22</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [29] 2 Chwefror 2015

<sup>23</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [33] 2 Chwefror 2015

<sup>24</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [60-61] 2 Chwefror 2015

<sup>25</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [35] 2 Chwefror 2015



### ***Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol***

40. Trafodwyd y materion hyn gyda'r Aelod sy'n gyfrifol, ac eglurodd oherwydd bod y Bil yn mewnosod darnau yn Neddf 2006, bod nifer o'r termau yn cael eu diffinio yn y Ddeddf honno.<sup>26</sup>

41. Dywedodd y Cynghorydd Cyfreithiol a ddaeth gyda'r Aelod sy'n gyfrifol bod newidiadau wedi'u gwneud ar ôl ymgynghori ar y Bil drafft, gan gynnwys newid y cyfeiriadau at 'nyrs' i 'nyrs gofrestrdig', gan fod hyn yn cael ei ddiffinio yn Neddf Dehongli 1978.

42. Cydnabu'r Cynghorydd Cyfreithiol nad oedd rhai termau fel 'gweithiwr cymorth gofal iechyd' ac 'acíwt' wedi'u diffinio ar wyneb y Bil oherwydd:

“...they are sector specific and have room for nuance and adjustment in the relation of the experience of that sector. Nursing levels will need to respond extremely quickly to changes and the best means of achieving that, we feel, is to leave the definitions to be decided by Welsh Ministers on the basis of any expert advice they receive.”<sup>27</sup>

43. I gloi, dywedodd Kirsty Williams AC bod diffiniadau eisoes ar gael, y tu allan i ddeddfwriaeth, ar gyfer rhai o'r termau allweddol hyn, a'i bod yn agored i'r syniad o ddiffinio rhai ohonynt ar wyneb y Bil.<sup>28</sup>

44. Hefyd, trafodwyd gyda'r Aelod y posibilrwydd y gallai Gweinidogion Cymru fod mewn sefyllfa lle byddent yn cyhoeddi canllawiau iddynt eu hunain. Dywedodd wrthym ei fod wedi'i ysgrifennu'n benodol yn y ffordd honno, oherwydd bod gan Weinidogion Cymru, o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau nyrsio, a bod Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cael eu cyfarwyddo i arfer y swyddogaethau hyn ar ran Gweinidogion Cymru. Felly, os

---

<sup>26</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [147] 2 Chwefror 2015

<sup>27</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [148] 2 Chwefror 2015

<sup>28</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [151-152] 2 Chwefror 2015

cyfyd sefyllfa lle na fyddai'r cyrff iechyd hyn yn bod, byddai angen i Weinidogion Cymru ddarparu'r gwasanaethau hyn, yn ôl y gyfraith.<sup>29</sup>

### ***Ein barn ni***

45. Yn gyffredinol, caiff termau eu diffinio ar wyneb Bil, a lle bydd angen addasu'r diffiniadau yn y dyfodol, bydd pŵer yn cael ei gynnwys weithiau i ddiwygio'r diffiniad drwy reoliadau. Yna, byddai unrhyw newid yn ddarostyngedig i brosesau craffu ffurfiol y Cynulliad. Dylai diffiniadau yn y canllawiau fod yn llai penodol, a bydd yn rhaid i'r cyrff ddehongli'r is-adran eu hunain, gan nad yw'r diffiniad yn y ddeddfwriaeth.

46. Credwn bod angen i rai o'r termau allweddol gael eu diffinio naill ai ar wyneb y Bil neu mewn rheoliadau.

### **Argymhelliad 2: Argymhellwn fod y Bil yn cael ei gryfhau gan yr Aelod sy'n gyfrifol drwy roi rhagor o ddiffiniadau ar wyneb y Bil.**

#### **Adran 4 – Cychwyn**

47. Mae'r Bil yn datgan y daw'r Ddeddf i rym drwy Gydsyniad Brenhinol. Mae hefyd yn dweud y bydd yn weithredol mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol corff gwasanaeth iechyd sy'n dechrau ar ddyddiad y Cydsyniad Brenhinol, neu wedyn.

48. Gofynnwyd am esboniad gan Kirsty Williams AC am eiriad yr adran hon. Roeddem yn pryderu bod posibilrwydd y gellid ei ddehongli fel cyfeiriad at gorff gwasanaeth iechyd sy'n dechrau ar ddyddiad y Cydsyniad Brenhinol neu wedyn yn hytrach na'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar ddyddiad y Cydsyniad Brenhinol neu wedyn.

49. Cadarnhaodd fod y Bil i fod yn gymwys i'r holl gyrff yn y gwasanaethau iechyd yng Nghymru, gan gynnwys y rhai presennol. Cadarnhaodd ei chynghorydd cyfreithiol hefyd nad oedd tîm yr Aelod yn meddwl bod unrhyw ddryswch yn y derminoleg a ddefnyddiwyd yn yr adran hon.<sup>30</sup>

---

<sup>29</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [157] 2 Chwefror 2015

<sup>30</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [173] 2 Chwefror 2015

50. Cytunodd yr Aelod y gellid bod wedi gwneud hyn yn gliriach yn y Memorandwm Esboniadol, ac y byddai hyn yn cael ei gymryd i ystyriaeth.<sup>31</sup>

**Argymhelliad 3: Argymhellwn fod yr Aelod sy'n gyfrifol yn ystyried eglurder y ddarpariaeth hon ac yn cyflwyno gwelliannau os bydd angen.**

*Ein barn ni*

51. Ar hyn o bryd, mae'r Bil yn datgan y daw'r Ddeddf i rym drwy Gydsyniad Brenhinol. Fodd bynnag, ni all y Bil ddod i rym hyd nes bydd y canllawiau wedi'u cyhoeddi. Felly, credwn y dylai'r Bil gynnwys pŵer cychwyn ar gyfer y Gweinidog.

**Argymhelliad 4: Argymhellwn fod pŵer cychwyn yn cael ei gynnwys yn y Bil.**

---

<sup>31</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [175] 2 Chwefror 2015